

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3

Dyddiad: Dydd Mercher, 27 Medi 2017

Amser: 08.54 – 11.18

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv) yn:

<http://senedd.tv/cy/4397>

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	John Griffiths AC (Cadeirydd) Gareth Bennett AC Janet Finch-Saunders AC Siân Gwenllian AC Bethan Jenkins AC David Melding AC Rhianon Passmore AC Jenny Rathbone AC Joyce Watson AC
Tystion:	Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig Carl Sargeant AC Neil Hemington, Llywodraeth Cymru Martin Swain, Llywodraeth Cymru Emma Williams, Llywodraeth Cymru



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Staff y Pwyllgor:	Naomi Stocks (Clerc) Chloe Davies (Dirprwy Glerc) Jonathan Baxter (Ymchwilydd) Osian Bowyer (Ymchwilydd) Stephen Davies (Cyngorydd Cyfreithiol) Jennifer Cottle (Cyngorydd Cyfreithiol)
-------------------	--

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb yn ystod eitemau 1–5 gan Janet Finch–Saunders AC. Roedd David Melding AC yn bresennol fel dirprwy ar gyfer Janet yn ystod eitemau 1–5.

1.3 Datganodd John Griffiths AC fuddiant perthnasol.

2 Ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 7

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
- Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
- Martin Swain, Dirprwy Gyfarwyddwr, Diogelwch Cymunedol, Llywodraeth Cymru
- Emma Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Tai, Llywodraeth Cymru
- Neil Hemington, Pennaeth Cynllunio, Llywodraeth Cymru

2.2 Yn ystod y sesiwn, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant a'i swyddogion i ddarparu:

- ffigurau ar gyfer adeiladau a gofrestrwyd ymlaen llaw cyn i'r rheoliadau adeiladu newydd ddod i rym yn 2016, ac felly na fyddai chwistrellwyr wedi eu gosod ynddynt er iddynt gael eu hadeiladu ar ôl 2016;

- gwybodaeth am yr amser hiraf a ganiateir rhwng dyddiad gwneud cais am gymeradwyaeth o dan y rheoliadau adeiladu, a'r dyddiad y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau;
- gwybodaeth am ba bryd y bydd y canllawiau diwygiedig ar gael ar ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau a adeiladwyd yn bwrpasol;
- eglurhad ynglŷn â'r ddyletswydd statudol ar ddatblygwyr adeiladu i ymgynghori ag awdurdodau tân ac achub ar ôl cyflwyno cynlluniau adeiladu gyntaf.

3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ynghylch Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd

3.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ynghylch Cymunedau yn Gyntaf – y gwersi a ddysgwyd.

3.2 Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ynghylch Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd

3.2.a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ynghylch Cymunedau yn Gyntaf – y gwersi a ddysgwyd.

3.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd

3.3.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cymunedau yn Gyntaf – y gwersi a ddysgwyd.

3.4 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd

3.4.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cymunedau yn Gyntaf – y gwersi a ddysgwyd.

3.5 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

3.5.a Nododd y Pwyllgor y llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol.

3.6 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

3.6.a Nododd y Pwyllgor y llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol.

3.7 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

3.7.a Nododd y Pwyllgor y llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol.

3.8 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

3.8.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol.

3.9 Llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Llywydd ynghylch Gweithredu Deddf Cymru 2017

3.9.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Llywydd ynghylch Gweithredu Deddf Cymru 2017.

3.10 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

3.10.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru).

3.11 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

3.11.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru).

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

5 Ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru: trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifenyddion y Cabinet ar nifer o faterion a godwyd.

6 Trafod y dull o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018–19

6.1 Trafododd y Pwyllgor a chytunodd ar ei ddull o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018–19.

7 Trafod yr adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol.